DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Practis Deintyddol The Cottage

Dyddiad arolygu: 6 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:**0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-7234-1
ⓗHawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 3

3. Crynodeb ........ 4

4. Canfyddiadau ........ 5

Ansawdd Profiad y Claf ........ 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 11

5. Y Camau Nesaf ........ 12

6. Methodoleg ........ 13

Atodiad A ........ 15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol The Cottage yn Rhydowen, Llandysul, Ceredigion, SA44 4QR, ar 6 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol The Cottage yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol The Cottage yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig, ac mae wedi'i leoli yn Llandysul, Ceredigion.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un nyrs ddeintyddol ac un therapydd deintyddol, ac maent yn trin tua 800 o gleifion.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol The Cottage yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y ddau aelod staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers i'r practis agor ac roedd ganddynt berthynas waith dda ac ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Darparu offer i waredu gwastraff glanweithiol a bin y codir ei gaead â phedal troed yn y toiled
- Defnyddio offeryn archwilio rheoli heintiau Deoniaeth Cymru
- Creu polisi dadebru penodol i'r practis
- Cynyddu'r manylion a gofnodir yn nodiadau'r cleifion.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, canfuom fod  y practis bach hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd da i boblogaeth ei gleifion. Mae'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi gweithio gyda'i gilydd ers i'r practis agor ac yn gwybod anghenion eu cleifion yn dda iawn. Gwnaeth yr adborth y gwnaethom ei dderbyn gadarnhau bod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd 19 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*"Yn hollol fodlon ar y gwasanaeth. Bob amser yn barod i ateb unrhyw gwestiynau sydd gen i ynglŷn ag unrhyw driniaeth mae ei hangen. Safon uchel o hylendid a gofal cwsmeriaid."*

*"Bob amser yn gynorthwyol iawn ac rwyf wedi cael ychydig o driniaethau tu allan i oriau'r practis oherwydd y ddannoedd a chefais driniaeth ar unwaith bob tro."*

*"Rydw i'n fodlon dros ben ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Roeddent bob amser yn groesawgar i fi a'm teulu. Yn ardderchog gyda'r plant. Fyddwn i ddim yn dewis unrhyw le arall."*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom staff yn trin cleifion mewn modd cyfeillgar, gofalgar a phroffesiynol. Dywedodd y cleifion y buom yn siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y lefel o wasanaeth a'r gofal i gleifion a bod staff bob amser yn gynorthwyol ac yn gyfeillgar.

Roedd ymatebion i holiaduron yn hynod o gadarnhaol ac yn adlewyrchu bod gan y practis  gleifion ffyddlon sy'n hynod o hapus gyda'r gofal maent yn ei dderbyn gan y deintydd hwn.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r deintydd yn darparu gwasanaeth triniaeth frys i'w chleifion. Os na fydd y deintydd yn gallu darparu'r driniaeth hon ei hunan (oherwydd gwyliau neu

salwch), mae trefniant i ddarparu triniaeth frys tu allan i oriau gan bractis deintyddol arall gerllaw.

Dywedodd un o'r cleifion y buom yn siarad ag ef ar y diwrnod wrthym fod staff bob amser yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei apwyntiad iddo, ynghyd â'r posibiliad o unrhyw oedi, er y dywedir wrthym hefyd fod oediadau yn brin iawn.

Cadw'n iach

Roedd digonedd o daflenni hybu iechyd deintyddol ar gael yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cefnogi o ran sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn y man aros. Mae'r deintydd yn siarad Cymraeg ac felly mae'n gallu darparu triniaeth ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

Gofal unigol

Roedd mynediad i'r practis ar lefel y llawr daear ac roedd y drysau yn ddigon llydan ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac roedd ramp cludadwy ar gael. Roedd digonedd o lefydd parcio ar gael i gleifion tu allan i'r practis.

Roedd y practis yn arddangos enw a chymwysterau'r deintydd, ynghyd â'u hamseroedd agor. Nid yw rhif argyfwng y practis yn cael ei arddangos, ond mae cleifion yn cael eu hysbysu o'r rhif argyfwng ar y peiriant ateb.

Roedd un toiled deuryw ar gael i'w ddefnyddio gan y cleifion a'r staff ac roedd wedi ei arwyddbostio'n eglur ac yn lân. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fin gwastraff glanweithiol yn y toiled a gwnaethom gynghori hefyd y dylai unrhyw fin arall yn y man hwn fod yn un a agorir â'r droed.

***Yr hyn y mae angen ei wella:***

***Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol a bin a agorir â'r droed yn cael eu gosod yn y toiled.***

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn ymdrin â chwynion a oedd wedi'i harddangos yn eglur yn y man aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys y manylion cywir ar gyfer yr awdurdod cofrestru. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn a gwnaethant newid y polisi a'r hysbysiad yn ystod ein hymweliad.

Gwnaethom drafod mecanwaith y practis ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion mewn modd gweithredol. Roedd hyn wedi cael ei wneud mewn modd ad hoc yn flaenorol, ond mae'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi bod yn llunio holiadur y maent yn bwriadu ei anfon at gleifion pan fydd pob set o lythyrau apwyntiadau

chwe misol yn cael eu cyhoeddi. Bydd hyn yn sicrhau y gofynnir i'r holl gleifion am eu hadborth yn rheolaidd.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom dystiolaeth o wasanaeth deintyddol sy'n cael ei reoli'n dda lle mae ymrwymiad cryf i ddarparu triniaeth o ansawdd da. Mae safonau uchel o arferion rheoli heintiau a dadheintio ar waith ac mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod gofal diogel i gleifion.**

**Gwnaethom nodi rhai gwelliannau roedd eu hangen o ran y lefel o fanylion a gofnodid yng nghofnodion y cleifion.**

<u>Gofal diogel</u>

Roedd y practis yn daclus a heb annibendod, ac roedd yn cael ei gynnal a chadw'n dda ymhob man. Roedd contract gwaredu gwastraff ar waith a oedd yn sicrhau bod yr holl wastraff a oedd yn cael ei gynhyrchu yn sgil triniaethau deintyddol yn cael ei drin mewn modd priodol.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod drwy gydol yr adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd o dan y contractau cynnal a chadw cyfarpar tân sydd gan y practis.  Roedd cyfeiriadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn eglur. Roedd dyfeisiau cludadwy bach yn cael eu profi'n rheolaidd  mewn modd priodol i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn eglur wrth y dderbynfa.

Roedd dadheintio'r offer deintyddol yn cael ei wneud o fewn yr ystafell driniaeth ac  roeddem yn fodlon bod y trefniadau a oedd ar waith mor effeithiol ac addas ag y gallent fod o ystyried mai dim ond un ystafell driniaeth sydd yn y practis deintyddol hwn ac nad oes ystafell ddadheintio ar wahân. O fewn yr ystafell driniaeth, roedd man dynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio a chanfuom fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn unol â'r canllawiau diweddaraf ar gyfer arfer gorau. Roedd y llyfr cofnodi, lle roedd y practis yn cofnodi ei waith cynnal a chadw dyddiol ar y cyfarpar sterileiddio, yn drefnus iawn ac yn enghraifft o arfer da.  Roedd y practis wedi cynnal archwiliad o'u gweithdrefnau rheoli heintiau a dadheintio, ond nid oeddent wedi defnyddio'r dull a gefnogir gan Ddeoniaeth Cymru. Rydym yn argymell eu bod yn defnyddio hwn gan ei fod wedi'i alinio i Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05), sef y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Defnyddiwch ddull archwilio Deoniaeth Cymru ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau.***

Gwnaethom edrych ar y cyffuriau brys a'r cyfarpar brys a gedwir yn y practis i'w defnyddio pe bai claf yn llewygu. Roedd yr holl feddyginiaethau o fewn eu dyddiadau defnyddio ac roedd system drefnus iawn, a oedd yn golygu bod pob meddyginiaeth yn cael ei chadw gyda'i gilydd gyda chyfarwyddiadau penodol ar gyfer ei defnyddio ac o dan ba amgylchiadau. Roedd system i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu hadnewyddu ac nad ydynt yn cael eu cadw ar ôl eu dyddiadau dod i ben. Gwnaethom awgrymu y gellid gwneud hyn yn haws drwy gofnodi pob dyddiad dod i ben mewn un lleoliad a hefyd drwy gofnodi'r gwiriad wythnosol sy'n cael ei gynnal.

Roedd y deintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar gyfer dadebru cardio-pwlmonaidd a chymorth cyntaf. Nid oedd diffibriliwr yn y practis ond, gan ei bod yn ardal wledig, mae staff ymatebwyr cyntaf ambiwlans yn byw yn y gymuned leol ac mae diffribiliwr cymunedol nepell o'r practis ei hunan. Mae'r practis a staff y practis yn rhan integredig o'r gymuned leol ac maent yn hyderus o ran y trefniadau sydd ar waith pe bai argyfwng. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi dadebru ar waith a oedd yn nodi'r weithdrefn maent yn ei dilyn a gwnaethom eu cynghori y dylid llunio un.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Llunio polisi dadebru sy'n amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng (claf yn llewygu).***

Roedd polisi ar waith ar gyfer diogelu oedolion ac amddiffyn plant fel ei gilydd. Roedd gan y deintydd a'r nyrs ddeintyddol hyfforddiant cyfredol yn y ddau faes. Yn ogystal â dal copïau o bolisïau diogelu Cymru gyfan a'u polisi hwythau ar gyfer y practis, roedd y nyrs ddeintyddol wedi treulio amser yn sefydlu cysylltiadau a gweithdrefnau lleol, a oedd wedi cael eu gosod mewn lle amlwg o fewn y ddeintyddfa er mwyn cael eu defnyddio'n hawdd pe bai angen. Roedd y trefniadau diogelu yn drefnus iawn, gyda llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi iddynt, a dylid eu cymeradwyo.

Roedd yr un ystafell driniaeth yn fawr, gyda digonedd o le a chyfarpar priodol. Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal ac yn gweithio'n dda. Gwnaeth y trefniadau a welsom gadarnhau ei fod yn cael ei weithredu'n ddiogel ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Mae'r deintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar gyfer amddiffyniad radiolegol.

<u>Gofal effeithiol</u>

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a nodi bod angen cofnodi rhagor o fanylion ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a oedd wedi cael eu darparu a'u hargymell.

Gwnaethom drafod y gwelliannu  roedd eu hangen, a oedd yn cynnwys yr angen i gofnodi'r cydsyniad a dderbyniwyd gan rieni, trafod a nodi hanes cymdeithasol claf gan gynnwys yfed alcohol ac ysmygu, sgrinio am ganser, a chyfiawnhau sganiau pelydr-X. Gwnaethom hefyd argymell bod y canllawiau diweddaraf ar gyfer galw cleifion yn ôl yn cael eu hadolygu a bod hyn yn cael ei gofnodi'n gyson o fewn y nodiadau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys manylion am gydsyniad, cofnod o yfed alcohol a statws ysmygu, a sgrinio am ganser. Dylid nodi'r cyfiawnhad ar gyfer sganiau pelydr-X yn gyson ac adolygu canllawiau ar gyfer galw cleifion yn ôl a'u cofnodi.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda iawn gydag ymrwymiad cryf i ddarparu triniaeth o ansawdd da ac i roi sylw i fanylion er gwaethaf maint y practis, sy'n gymharol fach.**

Gwelsom fod gan yr ymarferydd deintyddol archwiliad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, tystysgrif cofrestru broffesiynol, ac yswiriant indemniad.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod enw'r deintydd a'i gymhwyster yn cael eu harddangos yn glir.  Roedd tystysgrif AGIC y deintydd wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion cynhwysfawr ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B yr aelodau staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwelsom fod y deintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi cael mynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan fodloni a rhagori ar ofynion datblygiad proffesiynol parhaus o ran nifer yr oriau sydd wedi'u neilltuo i fynychu sesiynau hyfforddi. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu â gweithwyr deintyddol proffesiynol eraill mewn sesiynau hyfforddi ac maent bob amser yn frwd i ddysgu a chael y wybodaeth ddiweddaraf ym maes deintyddiaeth.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol The Cottage yn derbyn sylw, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis:** Practis Deintyddol The Cottage

**Dyddiad yr arolygiad:** 6 Gorffennaf 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6. | Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol a bin a agorir â'r droed yn cael eu gosod yn y toiled. | Rheoliad 14 (1) (d) | Mae contract gydag Initial Washrooms ar waith erbyn hyn – dim ond yn aros am gyrhaeddiad y bin glanweithiol. | Sarah Jones | 1 Medi 2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 7. | Defnyddiwch ddull archwilio Deoniaeth Cymru ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau. | Rheoliad 14 (1) (b) | Cysylltwyd â Deoniaeth Cymru. Siaradwyd â Nicola Dempsey ynghylch archwiliad cydymffurfiad WHTM 01-05. Derbyniwyd e-bost gyda manylion a ffurflen gofrestru. | Sarah Jones | 26 Awst 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 8. | Llunio polisi dadebru sy'n amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng (claf yn llewygu). | Rheoliad 14 (1) (d) | Mae polisi dadebru bellach ar waith. | Ann Jones<br>Sarah Jones | 8 Medi 2016 |
| 9. | Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys manylion o gydsyniad, cofnod o yfed alcohol a statws ysmygu, a sgrinio am ganser. Dylid nodi'r cyfiawnhad ar gyfer sganiau pelydr-X yn gyson ac adolygu canllawiau ar gyfer galw cleifion yn ôl a'u cofnodi. | Rheoliad 14 (1) (b) | Mae hanes meddygol a chymdeithasol llawn bob amser yn cael ei gymryd ar bob apwyntiad archwilio. Caiff cynlluniau triniaeth a chydsyniadau eu llofnodi pan fo angen. Erbyn hyn, mae templed ar waith i sicrhau bod yr holl fanylion yn cael eu cofnodi'n gywir yn nodiadau clinigol y cleifion. | Ann Jones | Gwelliannau a wnaed ers yr arolygiad. |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Ni wnaed unrhyw argymhellion. | | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ...M. Ann Jones..........................................................

**Teitl:** .....Deintydd..................................................................

**Dyddiad:** .......9 Medi 2016..............................................................